Polisi Disgyblaeth ac Ymddygiad Dysgwyr

Paratowyd gan:	Is-bennaeth / Prif Swyddog Gweithredu	
Cymeradwywyd y Polisi gan:	Uwch Dîm Arwain	15/10/13 13/01/16 21/11/18 23/09/22
	Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd	11/11/13 09/02/16 14/11/22
	Corfforaethol	17/12/18
Aseswyd ar gyfer Effaith:	Hydref 2018, Hydref 2022	
Adolygwyd:	Hydref 2018, Medi 2022	
Dyddiad Adolygu:	Medi 2025	

Cynnwys

1.	Cyflwyniad i'r polisi	3
2.	Diben	3
3.	Cwmpas y polisi	3
4.	Cysylltiad â dogfennau eraill	3
5.	Polisi disgyblu	4
6.	Camau disgyblu	5
7.	Hysbysiadau gwella	7
8.	Gwaharddiad dros dro	7
9.	Cyfarfod ymyrraeth disgyblu – Cam 3	7
10.	Cyfarfodydd gwahardd – Cam 4	8
11.	Apêl yn erbyn gwaharddiad	8
12.	Troseddau	9
13.	Monitro	9

1 Cyflwyniad i'r Polisi

Mae iechyd, diogelwch a llesiant ein dysgwyr a'n staff yn bwysig ac anelwn at sicrhau bod bywyd yn y coleg yn bleserus ac yn werth chweil i bawb.

2 Diben

Mae'r coleg yn ymroddedig i gefnogi'r holl ddysgwyr i gyflawni eu potensial academaidd. Mae'r coleg yn defnyddio ymagwedd adferol ac yn mynd ati i annog staff a dysgwyr i feithrin a chynnal perthnasau cadarnhaol. Mewn achosion lle nad yw ymddygiadau bellach yn dderbyniol, mae'r polisi hwn yn pennu'r gweithdrefnau a fydd yn cael eu rhoi ar waith. Ar bob cam, byddwn yn gwrando ar ddysgwyr, gan roi cefnogaeth a chyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad.

3 Cwmpas y Polisi

- Holl ddysgwyr addysg bellach llawn amser a rhan amser.
- Dysgwyr llawn amser a rhan amser sydd wedi ymrestru yn y coleg drwy sefydliadau partner (darparwyr hyfforddiant, addysg uwch, prentisiaethau, canolfannau dydd)
- Cysylltiadau ysgol tra eu bod ar y campws – *Os oes mater yn codi'n ymwneud â disgyblion 14 i 16 oed, mae' n rhaid cysylltu â'r awdurdod lleol a/neu mae'n rhaid cysylltu â'r ysgol yn syth er mwyn sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r broses. Yn dilyn trafodaeth gyda'r awdurdod lleol a/neu'r ysgol, os cytunir ar gamau gweithredu gwahanol, mae angen dogfennu hyn yn llawn a'i gynnwys ar gofnod y disgybl lle bo'n briodol.*
- Ymddygiadau ar y campws
- Rhai ymddygiadau oddi ar y campws – *Gellid defnyddio'r polisi hwn hefyd ar gyfer gweithredoedd honedig o gamymddygiad oddi ar safleoedd y Coleg, ar leoliadau gwaith, neu drwy'r rhyngrwyd/y cyfryngau cymdeithasol, os ydynt yn gysylltiedig â'r Coleg a bod y Coleg yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.*

4 Cysylltiad â dogfennau eraill

Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â'r dogfennau canlynol:

- Polisi Addasrwydd i Astudio
- Polisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu
- Ymagwedd Coleg Cyfan at Ymddygiad

5 Y Broses Ddisgyblu

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r camau y bydd y coleg yn eu cymryd yn ystod proses ddisgyblu. Ar bob cam, rhoddir cyfle i'r dysgwyr drafod eu hymddygiad a chytuno ar ffyrdd y gallant wneud newidiadau.

Mae'r coleg yn cydnabod efallai bod rhesymau ac amgylchiadau lliniarol ar gyfer rhai mathau o ymddygiad. Am y rheswm hwn, nid oes rhestr gynhwysfawr o ymddygiadau sy'n gysylltiedig â phob cam o'r broses.

Serch hynny, bydd yr amgylchiadau canlynol bob amser yn arwain at gam 3 y broses ddisgyblu:

- Cyflenwi, defnyddio neu feddu ar gyffuriau anghyfreithlon ar y campws
- Cyflenwi, defnyddio neu feddu ar alcohol ar y campws
- Cario arf ymosodol
- Camdriniaeth eiriol barhaus tuag at ddysgwyr a/neu staff
- Camdriniaeth gorfforol/ymosod ar ddysgwyr a/neu staff
- Dwyn
- Camdriniaeth neu ymosodiad rhywiol

Ni chaniateir yr eitemau canlynol yn y coleg o dan unrhyw amgylchiadau.

- Cyllyll neu arfau eraill
- Alcohol
- Cyffuriau
- Eitemau wedi'u dwyn
- Tân gwyllt
- Deunydd pornograffig

Bydd meddu ar unrhyw un o'r eitemau uchod yn arwain at gam 3 y broses ddisgyblu.

6 Camau Disgyblu

Cam	Ymdrinnir â'r broses gan	Canlyniad posib	Uchafswm cyfnodau amser	Cofnodion a gedwir	Apelio
1. Hysbysiadau gwella - anffurfiol	Darlithydd, Tiwtor, Aseswr	Hysbysiad gwella anffurfiol a chynllun cynnydd.	Cynllun Cynnydd – 3 wythnos	Hysbysiad Gwella OnTrack Cynllun Cynnydd Targedau OnTrack Adolygiad 61 Diwrnod Dysgu yn Seiliedig ar Waith	Cydlynydd Campws/Dirprwy Bennaeth Ysgol/Pennaeth Ysgol
2. Hysbysiad Gwella – ffurfiol (yn eu dewis iaith) (Rhieni/Gofalwyr i gael eu gwahodd i gyfarfod lle bo modd)	Cydlynydd Campws/Dirprwy Bennaeth Ysgol/Pennaeth Ysgol Rheolwr Dysgu yn Seiliedig ar Waith	Hysbysiad gwella ffurfiol a chynllun cynnydd.	Cynllun Cynnydd – 3 wythnos	Hysbysiad gwella ffurfiol OnTrack Cynllun Cynnydd Targedau OnTrack	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgwyr a Champws
3. Cyfarfod Ymyrraeth Disgyblu	Cyfarwyddwr Gwasanaethau	Hysbysiad disgyblu ffurfiol a chynllun cynnydd.	Cynllun Cynnydd – 3 wythnos	Hysbysiad disgyblu ffurfiol – OnTrack	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgwyr a

(Rhieni/Gofalwyr i gael eu gwahodd i gyfarfod lle bo modd, a threfnir cyfieithu ar y pryd os oes angen.)	Dysgwyr a Champws Darlithydd, Tiwtor, Aseswr i gael eu gwahodd i'r cyfarfod.			Cynllun Cynnydd – Targedau OnTrack	Champws o gampws gwahanol
4. Gwrandawiad Gwaharddiad (Rhieni/Gofalwyr i gael eu gwahodd i gyfarfod lle bo modd, a threfnir cyfieithu ar y pryd os oes angen.)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgwyr a Champws o gampws gwahanol	Gwaharddiad	Penderfyniad ymhen 5 diwrnod gwaith	Hysbysiad gwahardd - OnTrack	Pennaeth y Coleg

7 Hysbysiadau Gwella

Gellir cyhoeddi hysbysiadau gwella ar gam 1 (anffurfiol) a 2 (ffurfiol) y broses ddisgyblu. Cyhoeddir yr hysbysiadau hyn yn newis iaith y dysgwyr (yn unol â'r dewis iaith a nodwyd ar EBS). Mae'n rhaid cadw cofnod o'r hysbysiad a'r cynllun datblygu gan ddefnyddio OnTrack EBS.

Mae hysbysiadau gwella a chynlluniau datblygu yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ystyried a newid eu hymddygiad. Lle nad yw hyn yn digwydd, bydd y broses ddisgyblu yn symud ymlaen at y cam nesaf. Mae'r amserlenni ar gyfer hyn wedi'u hamlinellu uchod, ond gallant newid yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

8 Gwaharddiad dros dro

Gallai dysgwr gael ei wahardd dros dro o'r Coleg yn syth gan Bennaeth yr Ysgol neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgwyr a Champws, wrth aros am gyfarfod disgyblu. Os nad oes Pennaeth Ysgol na Chyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgwyr a Champws yn bresennol ar y campws, gallent ddarparu cymeradwyaeth ysgrifenedig (e-bost neu neges Teams) er mwyn i reolwr Gwasanaethau Dysgwyr a Champws weithredu'r gwaharddiad dros dro.

Mae gwaharddiad dros dro yn digwydd er mwyn rhoi cyfnod tawelu ar ôl digwyddiad difrifol a/neu i alluogi ymchwilio i'r digwyddiad yn ddirwystr. Bydd unrhyw waharddiad o'r fath yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig gan y Rheolwr Gwasanaethau Dysgwyr a Champws. Bydd y dysgwr hwnnw'n cael ei wahodd i gyfarfod disgyblu, lle bo'n bosib, ymhen 10 diwrnod o'r gwaharddiad dros dro.

9 Cyfarfodydd Ymyrraeth Disgyblu – Cam 3

Bydd cyfarfod ymyrraeth disgyblu yn cael ei gynnal gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgwyr a Champws. Cyn y cyfarfod, mae'n rhaid anfon yr holl wybodaeth berthnasol i'r cyfarwyddwr er mwyn iddynt baratoi.

Bydd y gwahoddiad i'r cyfarfod ymyrraeth disgyblu yn newis iaith y dysgwr (yn unol â'r dewis iaith a nodwyd yn EBS). Gofynnir i'r dysgwr a hoffen nhw siarad Cymraeg yn y cyfarfod. Os byddan nhw'n nodi yr hoffen nhw siarad Cymraeg yn y cyfarfod, byddan nhw'n cael gwybod y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Gymraeg neu y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu rhyngddynt oni bai bod modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg.

Gall y dysgwr gael cwmni rhywun o'r categorïau canlynol - cynrychiolydd undeb y myfyrwyr, cyd-ddysgwr, ffrind, eu rhieni, gwarcheidwaid, gofalwyr neu gynrychiolydd cymorth (ac eithrio cynrychiolydd cyfreithiol).

Diben y cyfarfod ymyrraeth disgyblu yw:

- pennu'r ffeithiau
- trafod unrhyw ffactorau lliniarol
- penderfynu ar gamau disgyblu arfaethedig

Lle caiff cyfarfod ymyrraeth disgyblu ei ohirio i aros am ymchwiliad pellach, bydd unrhyw ddysgwr sydd wedi'i wahardd dros dro yn parhau wedi'i wahardd tan i'r cyfarfod gael ei ailgynnull.

10 Cyfarfodydd Gwahardd – Cam 4

Cynhelir cyfarfod gwahardd gan aelod o'r Uwch Dîm Arwain a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgwyr a Champws o gampws gwahanol i'r un yr oedd y dysgwr yn ei fynychu. Cyn y cyfarfod, mae'n rhaid anfon yr holl wybodaeth berthnasol i'r Uwch Dîm Arwain a'r Cyfarwyddwr er mwyn iddynt baratoi.

Bydd y gwahoddiad i'r cyfarfod gwahardd yn newis iaith y dysgwr (yn unol â'r dewis iaith a nodwyd yn EBS). Gofynnir i'r dysgwr a hoffen nhw siarad Cymraeg yn y cyfarfod. Os byddan nhw'n nodi yr hoffen nhw siarad Cymraeg yn y cyfarfod, byddan nhw'n cael gwybod y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Gymraeg neu y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu rhyngddynt oni bai bod modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg.

Gall y dysgwr gael cwmni rhywun o'r categorïau canlynol – cynrychiolydd undeb y myfyrwyr, cyd-ddysgwr, ffrind, eu rhieni, gwarcheidwaid, gofalwyr neu gynrychiolydd cymorth (ac eithrio cynrychiolydd cyfreithiol).

Diben y cyfarfod gwahardd yw:

- pennu'r ffeithiau
- trafod unrhyw ffactorau lliniarol

Lle caiff cyfarfod gwahardd ei ohirio i aros am ymchwiliad pellach, bydd unrhyw ddysgwr sydd wedi'i wahardd dros dro yn parhau wedi'i wahardd tan i'r cyfarfod gael ei ailgynnull.

Bydd penderfyniad yn dilyn y cyfarfod gwahardd yn cael ei gyfleu'n ysgrifenedig ymhen 5 diwrnod gwaith.

11 Apêl yn erbyn gwaharddiad

Mae'r hawl olaf i apelio i Bennaeth y Coleg.

Mae gan y dysgwr hawl i apelio yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd yr holl ohebiaeth yn ymwneud â'r apêl yn newis iaith y dysgwr. Gofynnir i'r dysgwr a hoffen nhw siarad

Cymraeg yn y cyfarfod apêl. Os byddan nhw'n nodi yr hoffen nhw siarad Cymraeg yn y cyfarfod, byddan nhw'n cael gwybod y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Gymraeg neu y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu rhyngddynt oni bai bod modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg.

Dylai dysgwr sy'n dymuno apelio yn erbyn gwaharddiad roi gwybod i'r Pennaeth yn ysgrifenedig ymhen 10 diwrnod gwaith o ddyddiad y llythyr gwahardd, gan ddatgan y sail dros apelio. Dylai'r Pennaeth neu aelod arall o'r Uwch Dîm Arwain (nad oedd yn rhan o'r panel gwahardd) wrando ar yr apêl ymhen 15 diwrnod gwaith o gyflwyno'r apêl. Gallai'r Pennaeth neu'r aelod o'r Uwch Dîm Arwain ofyn i rywun arall eistedd gyda nhw i wrando ar yr apêl.

Ymhen 5 diwrnod o'r cyfarfod apelio, bydd y penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig gan y Pennaeth.

12 Troseddau

Os bydd gan aelod o staff reswm i gredu y gallai dysgwr fod wedi cyflawni trosedd, dylid cyfeirio hyn at aelod o'r Uwch Dîm Arwain. Gallai'r Coleg gyfeirio'r mater at yr heddlu a pharhau â'r achos disgyblu o dan y polisi hwn neu wahardd y dysgwr dros dro i aros am ganlyniad ymholiadau'r heddlu ac unrhyw gyhuddiadau y gellir eu dwyn yn erbyn y dysgwr. Os bydd y dysgwr wedi'i wahardd dros dro o dan y ddarpariaeth hon, pan fydd canlyniadau'r ymholiadau hyn ac unrhyw achosion troseddol yn hysbys, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i ailddechrau'r achos disgyblu.

Bydd unrhyw gamau disgyblu sy'n ymwneud â throseddau honedig yn seiliedig ar gred wirioneddol yr aelod o staff sy'n cymryd y camau ar ôl ymchwiliad priodol, ac ni fydd angen euogfarn droseddol. Nid yw'r Coleg wedi'i rwymo gan ganlyniadau achosion troseddol yn erbyn dysgwyr, ond gallai ddylanwadu ar unrhyw benderfyniad ynghylch addasrwydd yr unigolyn i barhau i astudio yn y Coleg.

13 Monitro

Bydd adroddiad monitro blynyddol yn cael ei gynhyrchu ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain a'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd.